

Agenda – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd	Bethan Davies
Dyddiad: Dydd Mercher, 17 Ionawr 2018	Clerc y Pwyllgor 0300 200 6372
Amser: 09.30	SeneddCyllid@cynulliad.cymru

- 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**
(09.30)
- 2 Papur(au) i'w nodi**
(09.30)
 - 2.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau at Gadeirydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – 10 Ionawr 2018**

(Tudalennau 1 – 28)
- 3 Datganoli pwerau cyllidol i Gymru: Sesiwn dystiolaeth 3**
(Awdurdod Cyllid Cymru)
(09.30–10.30) (Tudalennau 29 – 36)
Kathryn Bishop, Cadeirydd, Awdurdod Cyllid Cymru
Dyfed Alsop, Prif Weithredwr, Awdurdod Cyllid Cymru
- 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**
(10.30)
- 5 Datganoli pwerau cyllidol i Gymru: trafod y dystiolaeth**
(10.30–10.45)
- 6 Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi**
Datganoledig (Cymru) 2017: Offerynnau Statudol ym maes treth:
(10.45–11.10) (Tudalennau 37 – 50)



Papur 1 – Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018

[Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir \(Bandiau Treth a Chyfraddau Treth\) \(Cymru\) 2018](#)

[Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir \(Bandiau Treth a Chyfraddau Treth\) \(Cymru\) 2018 – Memorandwm Esboniadol](#)

Papur 2 – Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Swm Penodedig o Rent Perthnasol) (Cymru) 2018

[Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir \(Swm Penodedig o Rent Perthnasol\) \(Cymru\) 2018](#)

[Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir \(Swm Penodedig o Rent Perthnasol\) \(Cymru\) 2018 – Memorandwm Esboniadol](#)

Papur 3 – Rheoliadau Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (Diwygio Atodlen 5) 2018

[Rheoliadau Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig \(Cymru\) 2017 \(Diwygio Atodlen 5\) 2018](#)

[Rheoliadau Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig \(Cymru\) 2017 \(Diwygio Atodlen 5\) 2018 – Memorandwm Esboniadol](#)

Papur 4 – Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Gweinyddu) (Cymru) 2018

[Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir \(Gweinyddu\) \(Cymru\) 2018](#)

[Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir \(Gweinyddu\) \(Cymru\) 2018 – Memorandwm Esboniadol](#)

Papur 5 – Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2018

[Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir \(Darpariaethau Trosiannol\) \(Cymru\) 2018](#)

[Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir \(Darpariaethau Trosiannol\) \(Cymru\) 2018 – Memorandwm Esboniadol](#)

**7 Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017: Offerynnau
Statudol ym maes treth**

(11.10–11.15)

(Tudalennau 51 – 53)

Papur 6 – Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru)
2018

[Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi \(Cyfraddau Treth\) \(Cymru\) 2018](#)

[Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi \(Cyfraddau Treth\) \(Cymru\) 2018 –](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

John Griffiths
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a
Chymunedau

10 Ionawr 2018

Annwyl John,

BIL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS (CYMRU) DRAFFT

Diolch am eich llythyr dyddiedig 12 Rhagfyr 2017 yn gofyn am ragor o wybodaeth am y Bil.

Gweler yn atodedig fy ymateb i'r cwestiynau a godwyd gennych. Os hoffech chi drafod y materion hyn ymhellach, byddwn yn hapus i egluro rhagor yn fy sesiwn dystiolaeth derfynol gerbron y Pwyllgor ddydd Iau, 25 Ionawr 2018.

Yn gywir



Simon Thomas AC

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Cwestiynau i Simon Thomas AC, yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil

Adran 5 [Meini prawf ar gyfer ymchwilio ar ei liwt ei hun]

Beth yw ystyr 'methiant systemig' yn y cyd-destun hwn a pham rydych chi wedi dewis peidio â'i ddiffinio at ddibenion y Bil?

Mater i'r Ombwdsmon benderfynu arno yw a oes methiant systemig, yn seiliedig ar ei wybodaeth a'i arbenigedd o fethiannau mewn amryw wasanaethau cyhoeddus (gan gynnwys ei wybodaeth am y cwynion a ddaeth i law, sy'n esbonio'r geiriad ar ddechrau adran 5(2)(b)).

Hefyd, mae angen rhoi rhywfaint o ddisgresiwn i'r Ombwdsmon oherwydd rhaid i'r rheswm sylfaenol dros ymchwilio fod yn gysylltiedig â phobl sy'n dioddef anghyfiawnder neu galedi; ni ddylai'r Bil rwystro'r Ombwdsmon rhag ymchwilio i sefyllfaoedd lle mae pobl yn dioddef anghyfiawnder neu galedi.

Pe byddai'r Bil yn diffinio "methiant systemig" fel un sy'n cwmpasu Amgylchiadau A, B ac C, a phe byddai'r Ombwdsmon yn nodi bod Amgylchiadau X yn rhai a allai achosi i berson ddioddef anghyfiawnder neu galedi, ni fyddai'r Ombwdsmon yn gallu ymchwilio. Byddai methiant yn system awdurdod rhestredig yn cael ei ystyried yn fater difrifol ac mae potensial i lawer o bobl ddioddef anghyfiawnder neu galedi, ac felly dylai fod yn rhywbeth y gellir ymchwilio iddo.

Felly mae'r rhesymau uchod yn ei gwneud hi'n briodol i beidio â diffinio "methiant systemig". Mae Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Gogledd Iwerddon) 2016 hefyd yn defnyddio'r gair "systemig" heb roi diffiniad.

Mae'n werth nodi hefyd na fydd yr Ombwdsmon yn gallu gwthio ystyr "methiant systemig" yn rhy bell; caiff ei gyfyngu gan ei ddyletswydd i weithredu'n rhesymol ac er budd y cyhoedd ac ati.

Adran 8 a 9 [Gofynion: cwynion a wneir i'r Ombwdsmon a Gofynion: cwynion a atgyfeirir at yr Ombwdsmon]

Canllawiau

Pam nad yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ofynion yn ymwneud â datblygu'r

canllawiau ar gyfer gwneud cwynion? [Er enghraifft, gofyniad i'r Ombwdsmon ymgynghori cyn cyhoeddi.]

Yr Ombwdsmon sydd yn y sefyllfa orau i ddatblygu canllawiau ar gyfer gwneud cwynion, a rhaid ymddiried yn yr Ombwdsmon i ddatblygu'r canllawiau hynny.

Er enghraifft, bydd y canllawiau yn nodi ffurf cwyn a pha wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn cwyn. Yr Ombwdsmon sydd ag arbenigedd gan ei fod yn cael miloedd o gwynion ac ef sy'n deall sut i gael y gorau o gŵyn, fel y gall ymchwilio i unrhyw anghyfiawnder neu galedi a ddiodefir gan bobl.

Mae'r dull hwn hefyd yn helpu i ddiogelu'r canllawiau at y dyfodol; mae'n caniatáu i'r Ombwdsmon ddiweddarau'r canllawiau yn ôl y galw ac ystyried amgylchiadau sy'n newid.

[Ymddengys bod y cwestiwn hwn wedi'i anelu at y **ddyletswydd** sydd ar yr Ombwdsmon i baratoi canllawiau ynghylch ffurf cwynion. Mae'r ddyletswydd hon yn ddyletswydd newydd – nid oes dyletswydd ar yr Ombwdsmon wedi'i nodi yn Neddf 2005 i baratoi canllawiau ynghylch ffurf cwynion. (Mae'r Ombwdsmon yn cyhoeddi llyfrynnau ar wneud cwynion ar hyn o bryd, ond mae'n gwneud hyn drwy ddefnyddio ei bwerau cyffredinol **yn ôl disgrisiwn** i wneud pethau sy'n atodol i'w brif bwerau.)

Felly, mae'r ddyletswydd i baratoi canllawiau wedi'i hychwanegu fel haen newydd yn adrannau 8 a 9. Fodd bynnag, mae'r materion sylfaenol yn adrannau 8 a 9 yn sicr wedi'u seilio ar adrannau 5 a 6 o Ddeddf 2005, ac nid yw adrannau 5 a 6 o'r Ddeddf yn gofyn am unrhyw fath o ymgynghoriad, ac nid ydynt wedi gofyn am unrhyw fath o ymgynghoriad ers dros 12 o flynyddoedd.]

Amserlen ar gyfer cwynion

Fel Deddf 2005, mae'r Bil yn cynnwys pŵer dewisol a fyddai'n galluogi'r Ombwdsmon i ystyried cwynion ar ôl y terfyn amser statudol o 12 mis. Pa ystyriaeth a roddwyd i gynyddu'r terfyn amser statudol i gyfnod hwy na 12 mis neu i roi pŵer mwy penodol i'r Ombwdsmon i

amrywio'r dyddiad cau ar gyfer cwynion?

Nid yw'r Bil yn ceisio newid yr egwyddor sylfaenol hon sydd wedi bod yn gymwys (ac wedi gweithio'n dda) o dan Ddeddf 2005 am 12 mlynedd. Ers 2005, mae'r sefyllfa ddiofyn yn cynnwys terfyn 12 mis, gyda phŵer disgresiwn clir a rhesymol i'r Ombwdsmon dderbyn cwynion hŷn. Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth bod angen i'r egwyddor sylfaenol hon newid.

Adran 14 [Penderfyniadau a wnaed heb gamweinyddu]

Pam y cyfeirir yn benodol at ofal cymdeithasol yn yr adran hon a sut mae'r darpariaethau yn y Bil yn ymwneud â phwerau a chyfrifoldebau presennol Gofal Cymdeithasol Cymru?

Mae geiriad adran 14 y Bil yn ailddatgan, air am air, adran 12 o Ddeddf 2005. Felly, mae gofal cymdeithasol wedi'i gynnwys yn y cyd-destun hwn ers 2005 ac nid yw'r Bil yn newid hynny mewn unrhyw fodd.

Yn ddarostyngedig i bŵer yr Ombwdsmon i ymchwilio ar ei liwt ei hun, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn dod o dan Ran 3 o'r Bil yn yr un modd yn union ag y mae Gofal Cymdeithasol Cymru (gan gynnwys ei ragflaenydd, Cyngor Gofal Cymru) yn dod o dan Ran 2 o Ddeddf 2005. Mae hyn yn golygu y gellir ymchwilio i gamweinyddu gan Ofal Cymdeithasol Cymru, gan gynnwys pan fo camweinyddu yn ymwneud â rhinweddau penderfyniad a wnaed o ganlyniad i farn broffesiynol ym maes gofal cymdeithasol.

Nid yw'r Bil yn ceisio newid yr egwyddor sylfaenol hon sydd wedi bod yn gymwys (ac wedi gweithio'n dda) o dan Ddeddf 2005 am 12 mlynedd. Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth bod angen i'r egwyddor sylfaenol hon newid.

Adrannau 23 a 24: [Camau gweithredu ar ôl cael adroddiad: ymchwiliad i awdurdod rhestredig neu ddarparwr gwasanaethau iechyd preifat]

Pa sanctiynau fyddai ar gael i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru pe na byddai'r awdurdod rhestredig neu'r darparwr gwasanaethau iechyd preifat yn mynd i'r afael â materion neu

argymhellion a wnaed mewn adroddiad a gyhoeddwyd gan yr Ombwdsmon?

Pan fo'r Ombwdsmon yn paratoi / yn cyhoeddi adroddiad cychwynnol o dan adran 20 neu 26, caiff yr Ombwdsmon baratoi / cyhoeddi adroddiad arbennig o dan adran 27. Er enghraifft, os nad yw'r Ombwdsmon yn fodlon â'r camau a gymerodd yr awdurdod rhestredig mewn ymateb i adroddiad adran 20 neu 26, caiff yr Ombwdsmon baratoi / cyhoeddi adroddiad arbennig o dan adran 27.

Unwaith eto, mae hyn yn adlewyrchu'r pwerau sancsiwn sydd wastad wedi bod ar gael i'r Ombwdsmon o dan Ddeddf 2005 ac nid oes bwriad i'r Bil newid yr egwyddor sylfaenol honno.

Yn ogystal, mae adran 33 o'r Bil yn caniatáu i'r Ombwdsmon gyhoeddi canllawiau i awdurdodau rhestredig, ac mae'n rhaid i awdurdodau rhestredig dalu sylw i'r canllawiau hynny (gweler adran 33(3) o'r Bil). Unwaith eto, mae hyn yn ailddatgan yr egwyddor sylfaenol sydd bob amser wedi bod yn gymwys o dan adran 31 o Ddeddf 2005.

Mae'n werth nodi bod adran 25 o'r Bil yn ailddatgan adran 20 o Ddeddf 2005. Ni ddaethpwyd ag Adran 20 o Ddeddf 2005 i rym erioed. Ers drafftio'r Bil, cawsom ar ddeall nad oedd bwriad i gynnwys adran 20 yn Neddf 2005, sy'n esbonio pam nad yw fyth wedi dod i rym. Gan ein bod bellach yn deall nad yw adran 20 o Ddeddf 2005 yn gweithio fel offeryn gorfodi (a dyna pam nad yw fyth wedi dod i rym), derbynnir bod angen dileu adran 25 o'r Bil. Ymddengys mai gwelliant y cynhaliwyd pleidlais arno yn Senedd y DU oedd adran 20 o Ddeddf 2005. Ni ddisgwyliwyd i'r gwelliant hwn gael ei gytuno, ond cytunwyd arno drwy'r bleidlais. Deallwn fod un neu ragor o Aelodau wedi pleidleisio'n groes i'r ffordd yr oeddent wedi bwriadu, a dyna pam y pasiwyd y gwelliant.

Yn olaf, mae'r cwestiwn yn cyfeirio at adran 24 o'r Bil. Fodd bynnag, nid yw adran 24 yn rhoi pwerau sancsiwn i'r Ombwdsmon ei hun. Mae Adran 24 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau rhestredig, hynny yw dyletswydd i roi sylw i adroddiadau am ddarparwyr gwasanaethau iechyd preifat a gyhoeddir o dan adran 20(4) cyn ymrwymo i

gontractau gyda darparwyr gwasanaethau iechyd preifat.

RHAN 4: AWDURDODAU RHESTREDIG: GWEITHDREFNAU AR GYFER YMDRIN Â CHWYNION

Beth yw goblygiadau Rhan 4 i'r awdurdodau rhestredig hynny sydd eisoes yn destun y gweithdrefnau cwyno statudol, er enghraifft, cyrff y GIG?

Mae Adran 41(1)(b) o'r Bil yn egluro os yw awdurdod rhestredig yn ddarostyngedig i weithdrefn statudol ar gyfer ymdrin â chwynion, nid oes rhaid i'r awdurdod rhestredig gydymffurfio â gweithdrefn enghreifftiol yr Ombwdsmon ar gyfer ymdrin â chwynion ac nid oes yn rhaid iddo gydymffurfio â datganiad yr Ombwdsmon o egwyddorion, i'r graddau bod y dyletswyddau hynny i gydymffurfio yn anghyson â'r weithdrefn statudol.

Felly, bydd yn rhaid i awdurdodau rhestredig ystyried unrhyw weithdrefn statudol sy'n gymwys iddynt a'i chymharu â gweithdrefn enghreifftiol yr Ombwdsmon ar gyfer ymdrin â chwynion, ac yna dod i benderfyniad am unrhyw anghysonderau.

Gellir osgoi gwrthdaro diangen oherwydd bod y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon ymgynghori ag awdurdodau rhestredig cyn paratoi ei ddatganiad o egwyddorion a chyn cyhoeddi gweithdrefn enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion.

Pam nad yw'r Bil yn nodi amserlen ar gyfer ymgynghori a chyhoeddi gweithdrefn enghreifftiol yr Ombwdsmon ar gyfer ymdrin â chwynion?

Mae'r Bil yn rhoi hyblygrwydd i'r Ombwdsmon ddatblygu syniadau ac i ymgynghori'n helaeth cyn y bydd ei bwerau newydd yn dod i rym.

Mae'r Bil yn ailadrodd darpariaethau ymdrin â chwynion Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban 2002, sydd wedi gweithio'n dda.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn pwysleisio y bydd y darpariaethau mewn perthynas ag ymdrin â chwynion yn golygu y bydd data rheolaidd, dibynadwy a chymaradwy am gwynion ar gael ar draws y

sector cyhoeddus. Pa ystyriaeth a roddwyd i gynnwys gofynion penodol yn y Bil mewn perthynas â chasglu data?

Pan fydd yr Ombwdsmon yn cydymffurfio â'r ddyletswydd i fonitro arferion a nodi tueddiadau yn yr arferion, mae Adran 40 o'r Bil yn rhagweld y bydd hyn yn arwain at gasglu gwybodaeth a data ynghylch ymdrin â chwynion.

Mae Adran 40 hefyd yn dweud bod yn rhaid i awdurdodau rhestredig gydweithredu â'r Ombwdsmon pan fo'r Ombwdsmon yn arfer ei ddyletswydd i fonitro arferion a nodi tueddiadau yn yr arferion. Bydd hyn yn sicrhau bod yr Ombwdsmon yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arno, a'i fod yn cael data rheolaidd, dibynadwy a chymaradwy am ymdrin â chwynion ar draws y sector cyhoeddus.

Os oes gwahanol weithdrefnau cwyno ar gyfer gwahanol sectorau (a sefydliadau o fewn sectorau) sut y bydd unrhyw ddata sydd ar gael yn cael eu defnyddio i gymharu a chyferbynnu?

Rhagwelir y bydd yr Ombwdsmon yn rhoi sylw i hyn wrth ddatblygu ei weithdrefnau enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion, hynny yw os bydd yn datblygu gwahanol weithdrefnau ymdrin â chwynion ar gyfer gwahanol sectorau, yna byddant yn cael eu datblygu yn y fath fodd fel y gall gymharu a chyferbynnu'r data y mae'n eu cael.

Gallai'r materion hyn hefyd gael eu cynnwys yn natganiad yr Ombwdsmon o egwyddorion, y mae'n rhaid i'r Cynulliad ei gymeradwyo.

Mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon ymgynghori'n helaeth cyn datblygu gweithdrefnau ymdrin â chwynion a rhaid i'r Cynulliad gymeradwyo'r datganiad o egwyddorion. Gellir defnyddio'r gofynion hyn i helpu i sicrhau y gellir defnyddio data i gymharu a chyferbynnu ar draws gwahanol sectorau.

Fodd bynnag, yn y pen draw, nid yw'r Bil yn rhagnodi ragor o fanylion ynghylch sut y bydd yr Ombwdsmon yn datblygu gweithdrefnau enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion.

Mae'r Bil yn ailadrodd darpariaethau ymdrin â chwynion Deddf

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban 2002, sydd wedi gweithio'n dda.

Beth yw goblygiadau Rhan 4 i'r awdurdodau rhestredig hynny sydd eisoes wedi mabwysiadu'r polisi enghreifftiol presennol ar gyfer ymdrin â chwynion yn wirfoddol?

Bydd gofynion statudol Rhan 4 yn drech nag unrhyw weithdrefn wirfoddol. Ond, eto, mae dyletswydd yr Ombwdsmon i ymgynghori yn golygu y gellir symud i unrhyw weithdrefn newydd mor esmwyth â phosibl.

RHAN 5 YMCHWILIO I GWYNIION SY'N YMWNEUD Â PHERSONAU ERAILL: GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL LLINIAROL

Allwch chi roi rhagor o fanylion am y cymhlethdodau a nodwyd mewn tystiolaeth lafar wrth integreiddio'r cyfundrefnau ymchwilio yn Rhan 3 a Rhan 5?

Y man cychwyn yw pan gyflwynodd Llywodraeth Cymru Ran 2A yn Neddf 2005 (trwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014), byddai arbenigwyr gofal cymdeithasol a lliniarol Llywodraeth Cymru wedi llunio darpariaethau Rhan 2A yn ofalus fel eu bod yn cael eu cymhwyso'n briodol yng nghyd-destun darparwyr cartrefi gofal, darparwyr gofal cartref a darparwyr gofal lliniarol annibynnol.

Gwnaeth Llywodraeth Cymru benderfyniad bwriadol i gynnwys Rhan 2A fel rhan annibynnol o Ddeddf 2005 ac i beidio â dod â gofal cymdeithasol a lliniarol o fewn ymchwiliadau Rhan 2. Mae'n bwysig bod y Bil yn parchu'r gwahaniad hwnnw.

Pe byddai natur benodol Rhan 2A o'r Ddeddf yn cael ei pharchu a'i chadw gan ddod â Rhan 2A hefyd o fewn Rhan 2, yna byddai Rhan 2 wedi bod yn eithriadol o gymhleth.

Er enghraifft:

- Mae Rhan 2 o Ddeddf 2005 yn caniatáu i'r Ombwdsmon ymchwilio i awdurdodau rhestredig, yn amodol ar rai eithriadau.

Mae Rhan 2A o Ddeddf 2005 yn nodi darparwyr gofal cymdeithasol a lliniarol, ac mae iddi ei set ei hun o eithriadau. Byddai uno'r rhain yn golygu bod angen pennu'r ddwy set o eithriadau, gan greu cyfundrefn hirach a mwy cymhleth lle nad yw'n glir pa eithriadau sy'n gymwys i ba gyrff.

- Mae Rhan 2 o Ddeddf 2005 yn seiliedig bron yn llwyr ar gamweinyddu gan awdurdod rhestredig. Fodd bynnag, o dan Ran 2A, nid oes gofyn am gamweinyddu gan ddarparwr gofal cymdeithasol neu liniarol. Felly, pe byddai'r adrannau sy'n ymwneud â "materion y caniateir ymchwilio iddynt" yn cael eu cyfuno, byddai'r gofynion camweinyddu yn gymwys i rai cyrff yn Rhan 2 ond nid i eraill. Yn ogystal, mae'r dull o weithredu yn achos "materion y caniateir ymchwilio iddynt" yn wahanol yn Rhan 2 a Rhan 2A (i'r fath raddau fel nad yw Rhan 2A yn cyfeirio at "faterion y caniateir ymchwilio iddynt"; yn hytrach mae'n cyfeirio at "faterion y mae'r Rhan hon yn gymwys iddynt", sydd â strwythur gwahanol iawn i'r adran gyfatebol yn Rhan 2).
- I gyfuno Rhan 2 o Ddeddf 2005 gyda Rhan 2A o Ddeddf 2005 byddai angen penderfynu pa un a ddylid nodi darparwyr gofal cymdeithasol a lliniarol fel awdurdodau rhestredig ai peidio. Pe baent yn cael eu nodi fel awdurdodau rhestredig, yna byddai'n rhaid gwneud darpariaeth bellach ar gyfer yr awdurdodau rhestredig hynny a oedd yn ddarparwyr gofal cymdeithasol a lliniarol (oherwydd, i barchu natur benodol y darpariaethau gofal cymdeithasol a lliniarol, ni fyddai modd i'r gyfundrefn gyfan ar gyfer awdurdodau rhestredig gael ei chymhwyso *en bloc* i ddarparwyr gofal cymdeithasol a lliniarol). Pe na baent yn cael eu nodi fel awdurdodau rhestredig, yna byddai'r ddarpariaeth gofal cymdeithasol a lliniarol yn cael ei chopio a'i gludo yn Rhan 2, gan greu un Rhan 2 hir iawn a fyddai â dwy gyfundrefn benodol ynddi. Ni fyddai hyn yn helpu pobl i ddeall y Bil - mae'n llawer gwell ac yn gliriach bod y gyfundrefn ar gyfer awdurdodau

rhestredig a'r gyfundrefn ar gyfer darparwyr cymdeithasol a lliniarol yn cael eu cadw ar wahân. Mae hyn hefyd yn parhau â'r gwahaniad presennol yn Neddf 2005 sydd erbyn hyn yn gyfarwydd iawn. Byddai cadw'r cyfundrefnau ar wahân hefyd yn ei gwneud hi'n haws i bob cyfundrefn gael ei diwygio yn y dyfodol.

- Mae Adran 22 o Ddeddf 2005 yn nodi'r amgylchiadau lle caiff yr Ombwdsmon baratoi adroddiad arbennig o dan Ran 2 o Ddeddf 2005. Mae Adran 34O o Ddeddf 2005 yn nodi'r amgylchiadau lle caiff yr Ombwdsmon baratoi adroddiad arbennig o dan Ran 2A o Ddeddf 2005. Mae dull Llywodraeth Cymru o ddrafftio adran 34O yn wahanol i ddull Llywodraeth y DU yn adran 22. I barchu natur benodol y dull o ddrafftio'r ddwy adran, byddai adran newydd sy'n cyfuno adran 22 ac adran 34O wedi bod yn hir ac yn gymhleth.

Pam nad yw Rhan 5 yn cynnwys darpariaeth debyg i adran 24 yn Rhan 3?

Roedd y Pwyllgor Cyllid o'r farn bod Adran 24 yn ffordd addas o gael darparwyr gwasanaethau iechyd preifat i gymryd ymchwiliadau ac adroddiadau'r Ombwdsmon o ddifrif.

O ystyried y cyswllt penodol rhwng: (a) y graddau y mae darparwyr gwasanaethau iechyd preifat yn cael eu cynnwys yn y Bil, a (b) awdurdodau rhestredig (trwy adran 10(2)(c) o'r Bil), ystyriwyd ei bod yn briodol y dylai unrhyw sancsiwn a roddir ar ddarparwyr gwasanaethau iechyd preifat fod yn gysylltiedig ag awdurdodau rhestredig eraill. Ceir y cysylltiad hwnnw yn adran 24, hynny yw mae'n rhaid i awdurdodau rhestredig dalu sylw i adroddiadau a gyhoeddwyd mewn perthynas â darparwyr gwasanaethau iechyd preifat.

Mae Rhan 5 yn rhan benodol o'r Bil, gan ei bod yn ymdrin â gwahanol fathau o gyrff - mae awdurdodau rhestredig yn gyrff gwahanol iawn o gymharu â darparwyr cartrefi gofal, darparwyr gofal cartref a darparwyr gofal lliniarol annibynnol.

Cafodd Rhan 5 ei chynnwys yn Neddf 2005 gan Lywodraeth Cymru (trwy

Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) fel rhan benodol sy'n ymwneud â darparu gofal cymdeithasol a lliniarol preifat.

Nid yw'r Bil yn ceisio newid y sancsiynau a all godi o dan Ran 5 o'r Bil, gan fod Llywodraeth Cymru wedi dewis y sancsiynau hynny'n ofalus fel rhai addas yng nghyd-destun darparwyr cartrefi gofal, darparwyr gofal cartref a darparwyr gofal lliniarol annibynnol.

RHAN 6 YMCHWILIADAU: ATODOL

Pam rydych chi wedi dewis peidio â chynnwys Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon a'r Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth yn y rhestr o ombwdsmyrn a nodir yn adran 64?

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan Ddeddf 2005 i ychwanegu at y rhestr o bersonau a nodir yn adran 34U o Ddeddf 2005 (a adlewyrchir yn adran 64 o'r Bil). O ystyried nad yw Gweinidogion Cymru wedi defnyddio'r pwerau hyn i ychwanegu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon na'r Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth, barnwyd nad oedd yn briodol eu cynnwys yn y Bil.

Fodd bynnag, os bydd trafodion Cyfnod 1 yn dangos y dylai'r rhestr yn adran 64 o'r Bil newid, dylid ystyried hynny yng Nghyfnod 2.

Pa gamau gweithredu y gellid eu cymryd gan gomisiynwyr, cynghorwyr statudol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru pe baent yn anghytuno â phenderfyniad yr Ombwdsmon ynghylch perthnasedd mater y mae ef yn ymchwilio iddo i'w gwaith?

Yn syml, caiff comisiynwyr, cynghorwyr statudol, rheoleiddwyr a'r Archwilydd Cyffredinol anghytuno â'r Ombwdsmon. Nid yw'r Bil yn gorfodi'r cyrff hynny i weithio â'r Ombwdsmon.

O ran y cyrff hynny sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y cyd-destun hwn o dan Ddeddf 2005, nid yw hyn yn newid.

Er enghraifft, o dan Ddeddf 2005, os oes anghytundeb rhwng, dyweder, yr Ombwdsmon a Chomisiynydd y Gymraeg, yna nid oes dyletswydd arnynt i

weithio gyda'i gilydd – gallant fynd eu ffordd eu hunain ac ymchwilio yn annibynnol.

Fodd bynnag, bydd gosod dyletswydd ar yr Ombwdsmon i hysbysu ac ymgynghori â'r cyrff hyn yn helpu'r cyrff hynny i gydweithio. Mae'r Bil yn ehangu'r cyfle i gydweithio. Er enghraifft, os yw'r Ombwdsmon yn ystyried a ddylid ymchwilio i fater a all fod yn rhywbeth y gall yr Archwilydd Cyffredinol ymchwilio iddo, nid yw Deddf 2005 yn gosod unrhyw ofynion o gwbl ar yr Ombwdsmon i hysbysu'r Archwilydd Cyffredinol. Fodd bynnag, mae'r Bil yn mynd i'r afael â hynny trwy ofyn i'r Ombwdsmon hysbysu ac ymgynghori â'r Archwilydd Cyffredinol pan fo hynny'n briodol. Mae'r un peth yn gymwys i'r ffordd y mae'r Bil yn ehangu'r gofynion i hysbysu ac ymgynghori â chomisiynwyr eraill, cynghorwyr statudol a rheoleiddwyr. Drwy ddod â mwy o bobl at ei gilydd, mae'r Bil yn lleihau'r posibilrwydd o anghytundebau ac ymchwiliadau sy'n gorgyffwrdd.

Yn ogystal, mae'r Ombwdsmon wedi trefnu memoranda o ddealltwriaeth gyda gwahanol gomisiynwyr. Unwaith eto, rhoddir y trefniadau hyn ar waith er mwyn sicrhau dull effeithlon ac effeithiol o weithio. Drwy ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon hysbysu ac ymgynghori â rhagor o gyrff, mae'n debygol y bydd yr Ombwdsmon yn trefnu memoranda o ddealltwriaeth gyda rhagor o gyrff; gall hyn helpu i sicrhau bod unrhyw broblemau'n cael eu datrys yn fwy effeithlon ac effeithiol.

Pa ystyriaeth a roddwyd i ofyn i'r Ombwdsmon ymgynghori â chomisiynwyr, cynghorwyr statudol, rheoleiddwyr ac Archwilydd Cyffredinol Cymru ar bob cynnig ymchwilio fel mater o drefn?

Gallai gwneud ymgynghori'n ofynnol fel mater o drefn arwain at waith diangen ac oedi o ran ymchwiliadau. Er enghraifft, os yw'r Ombwdsmon yn ymchwilio i fater sy'n ymwneud ag iechyd yn unig, ni fyddai'n ymarferol iddo ymgynghori â phob comisiynydd, cynghorydd statudol, rheoleiddiwr a'r Archwilydd Cyffredinol fel mater o drefn.

Dyletswydd yr Ombwdsmon yw ymgynghori yn ôl yr hyn y mae'n ei ystyried yn briodol. Mae'n iawn bod yr Ombwdsmon yn cael y disgrisiwn hwn i ymgynghori pan fo'n briodol o dan amgylchiadau pob ymchwiliad. Mae hyn hefyd yn sicrhau annibyniaeth yr Ombwdsmon ac nid yw'n llyffetheirio'n

ormodol ei ddisgresiwn i ymchwilio i faterion pan fo'n ymwybodol o berson sy'n dioddef oherwydd anghyfiawnder neu galedi.

Mae hyn yn adlewyrchu'r dull cymesur o ymdrin â darpariaethau Deddf 2005 o ran cydlafurio, ac nid yw'r Bil yn ceisio newid y polisi cymesur hwnnw (fel y'i cyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014).

ATODLEN 1

Pa ystyriaeth a roddwyd i wneud y darpariaethau ar gyfer archwilio cyfrifon yr Ombwdsmon yn unol â'r safonau ar gyfer darpariaethau archwilio'r GIG a llywodraeth leol?

Cododd Archwilydd Cyffredinol Cymru fater y cysondeb o ran deddfwriaeth archwilio yn ei [lythyr dyddiedig 6 Hydref 2017](#) yr ymatebais iddo ar [7 Tachwedd 2017](#). Yn fy llythyr rwy'n nodi bod y Pwyllgor Cyllid yn barod i ailystyried y materion a gododd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn dilyn cyhoeddi adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor.

ATODLEN 3

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi codi pryderon ynghylch cynnwys Swyddfa Archwilio Cymru fel corff rhestredig o dan Atodlen 3. Sut rydych chi'n ymateb i'r pryderon hyn?

Cododd Archwilydd Cyffredinol Cymru y materion sy'n ymwneud â chynnwys Swyddfa Archwilio Cymru yn Atodlen 3 yn ei [lythyr dyddiedig 6 Hydref 2017](#) yr ymatebais iddo ar [7 Tachwedd 2017](#). Yn fy llythyr rwy'n nodi bod y Pwyllgor Cyllid yn barod i ailystyried y materion a gododd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn dilyn cyhoeddi adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor.

MEYSYDD AMRYWIOL:

Pam rydych chi wedi dewis peidio ag ailddatgan adran 33 o Ddeddf 2005, sy'n gosod gofynion ar awdurdodau rhestredig i roi cyhoeddusrwydd i'r weithdrefn ar gyfer gwneud cwynion i'r Ombwdsmon?

Nid yw adran 33 o Ddeddf 2005 bellach yn angenrheidiol oherwydd

mae wedi cael ei disodli gan Ran 4 o'r Bil. Er bod adran 33 yn rhoi pŵer cyfyngedig i'r Ombwdsmon ymdrin â chwynion, mae Rhan 4 o'r Bil hefyd yn caniatáu ymdrin â chwynion mewn ffordd fwy manwl a phwrpasol.

Pam wnaethoch chi ddewis peidio ag ailddatgan adran 35 ac atodlen 4 o Ddeddf 2005, sy'n rhoi swyddogaethau i'r Ombwdsmon ynghylch ymddygiad aelodau llywodraeth leol – byddai hyn yn darparu darn o ddeddfwriaeth Gymreig wedi'i gydgrynhai ar rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru?

Gwnaeth Atodlen 4 i Ddeddf 2005 newidiadau canlyniadol i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 – cyflawnwyd y diwygiadau hynny. Byddai'n ddryslyd ac yn amhriodol i'r diwygiadau hynny gael eu hailddatgan yn y Bil.

O ran adran 35 o Ddeddf 2005, caiff yr adran honno ei harbed gan adran 74(1)(b) o'r Bil (sy'n golygu y bydd y diwygiadau a wneir gan Atodlen 4 yn parhau i fod mewn grym yn awtomatig, ac nad oes angen ailddatgan y diwygiadau bob tro).

Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod yr Ombwdsmon, yn y gorffennol, wedi mynd i'r afael â'r cynnydd yn y llwyth achosion drwy ostwng y costau uned fesul cwyn 65 y cant rhwng 2010–11 a 2015–16. Pa sicrwydd sydd gennych y bydd yn gallu sicrhau gostyngiadau pellach gyda chynnydd yn y llwyth achosion yn y dyfodol, gan wneud y Bil yn fforddiadwy yng nghyd-destun ei gyllideb gyffredinol?

Fel y nodir ym mharagraff 11.63 o'r Memorandwm Esboniadol, mae'r Ombwdsmon, hyd yn hyn, wedi ymdopi â'r cynnydd yn y llwyth achosion trwy ostwng pris yr uned fesul cwyn yn hytrach na gofyn am gynnydd cymesur yn y cyllid.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn mynd rhagddo i nodi fod yr Ombwdsmon yn dweud y bydd yn parhau i adolygu arferion gweithio a strwythur y sefydliad i ymdopi â chynnydd yn y llwyth achosion. Mae'r Ombwdsmon o'r farn na fyddai ei swyddfa'n gallu ymdopi â lefel y cynnydd a ragwelir yn y llwyth achosion heb adnoddau ychwanegol. Nid yw'n bosibl amcangyfrif yn

union faint o dwf y gellid ymdopi ag ef gyda'r adnoddau presennol trwy effeithlonrwydd ac arloesi yn y dyfodol. Byddai'n rhaid i'r Ombwdsmon gynnwys ceisiadau ychwanegol am adnoddau yng nghyllidebau blynyddol y dyfodol a gyflwynir i'r Pwyllgor Cyllid.

A allwch egluro'r gwahaniaeth rhwng y costau uned fesul cwyn o £501 ar gyfer 2015-16 a ddefnyddir i gael y costau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r costau uned o £613 ar gyfer 2015-16 a nodir yn amcangyfrif diweddaraf yr Ombwdsmon o'i gyllideb? Ydych chi wedi gwneud unrhyw asesiad o'r effaith ariannol y byddai defnyddio'r ffigur o £613 yn ei chael ar gostau ychwanegol y Bil?

Mae'r costau uned o £501, a ddefnyddir i gael y costau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn adlewyrchu'r gwariant yr aeth swyddfa'r Ombwdsmon iddo yn 2015-16 ar gyfer Nod 2: *Darparu gwasanaeth ymdrin â chwynion o ansawdd uchel, sy'n ystyried ac sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch cwynion yn drylwyr ond yn gymesur, ac sy'n cyfleu penderfyniadau'n glir.* Ystyriwyd mai hwn oedd y ffigur mwyaf rhesymol a phriodol ar gyfer amcangyfrif cost y cynnydd amcanestynedig yn y llwyth achosion.

Mae cyfanswm gwariant yr Ombwdsmon, a ddefnyddir i gyfrifo'r costau uned ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol a'r Amcangyfrif, yn cynnwys cost agweddau eraill ar waith yr Ombwdsmon. Er enghraifft, mae'r cyfanswm gwariant yn cynnwys y costau y eir iddynt i wella dyletswyddau mewnol swyddfa'r Ombwdsmon, megis llywodraethu, prosesau busnes a'r swyddogaethau cymorth. Barnwyd nad oedd cost y gweithgareddau hyn yn debygol o amrywio yn sgil y cynnydd amcanestynedig yn y llwyth achosion. O'r herwydd, ni chawsant eu cynnwys wrth gyfrifo'r costau uned at ddibenion paratoi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Yn Nhabl 1 isod mae crynodeb o gostau amcangyfrifedig y cynnydd amcanestynedig yn y llwyth achosion gan ddefnyddio'r costau uned yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (£501) ac Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon (£613). Mae hefyd yn nodi'r ffigurau cyfatebol ar gyfer 2016-17. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad A i'r papur hwn, sy'n cyflwyno'r amcangyfrifon gan ddefnyddio'r un fformat â'r hyn a ddefnyddir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Tabl 1: Cost yr amcanestyniad o'r cynnydd yn llwyth achosion yr Ombwdsmon (£)

	Unit cost per complaint (£)			
	£501 ^a Total (5 Years)	£613 ^b Total (5 Years)	£455 ^c Total (5 Years)	£526 ^d Total (5 Years)
2005 Act:				
Increase in caseload of 5 per cent per annum				
Projected caseload (Number of cases)				
Increase year-on-year (Number of cases)				
Estimated additional cost year-on-year (£)	988,974	1,210,062	898,170	1,038,324
Estimated additional cumulative cost from 2018-19 (£)	2,870,229	3,511,877	2,606,695	3,013,454
Increase in caseload of 12 per cent per annum				
Projected caseload (Number of cases)				
Increase year-on-year (Number of cases)				
Estimated additional cost year-on-year (£)	2,910,810	3,561,530	2,643,550	3,056,060
Estimated additional cumulative cost from 2018-19 (£)	8,076,621	9,882,173	7,335,055	8,479,646

Nodiadau:

- a Cost uned fesul achos sy'n deillio o wariant yr aeth yr Ombwdsmon iddo yn 2015–16 ar gyfer Nod 2, *Darparu gwasanaeth ymdrin â chwynion o ansawdd uchel, sy'n ystyried ac sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch cwynion yn drylwyr ond yn gymesur, ac sy'n cyfleu penderfyniadau'n glir* [Gwariant (£3,008,000) wedi'i rannu â llwyth achosion (5,999). Ffynhonnell: [Cyfrifon Blynyddol yr Ombwdsmon 2015–16](#)]. Dyma'r costau uned fesul achos a ddefnyddiwyd ar gyfer yr amcangyfrifon o gostau yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol.
- b Cost uned fesul achos ar gyfer 2015–16 fel y nodwyd yn [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016–17](#) yr Ombwdsmon ac Amcangyfrif 2018–19.
- c Cost uned fesul achos sy'n deillio o wariant yr aeth yr Ombwdsmon iddo yn 2016–17 ar gyfer Nod 1, *Darparu gwasanaeth cwynion o'r safon uchaf, sy'n gymesur ac yn effeithiol* [Gwariant (£3,097,000), wedi'i rannu â llwyth achosion (6,804). Ffynhonnell: [Cyfrifon Blynyddol yr Ombwdsmon 2016–17](#)].
- d Cost uned fesul achos ar gyfer 2016–17 fel y nodwyd yn [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016–17](#) yr Ombwdsmon ac Amcangyfrif 2018–19.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi dweud y byddai wedi bod yn briodol rhoi ffigurau yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer osgoi costau o ganlyniad i'r Bil yn seiliedig ar liniaru cynnydd o 5 y cant yn y baich achosion (yn ychwanegol at liniaru cynnydd o 12 y cant sydd wedi'i gynnwys yn yr

Asesiad Effaith Rheoleiddiol). Am ba resymau y gwnaethoch chi ddewis peidio â chynnwys y ffigurau hyn yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ac a allwch chi ddarparu'r ffigurau hyn i'r Pwyllgor?

Amcangyfrif gorau'r Ombwdsmon yw y bydd ei lwyth achosion yn cynyddu 12 y cant y flwyddyn. Yn y cyd-destun hwnnw, mae ei swyddfa wedi amcangyfrif y lliniaru neu'r 'osgoi costau' a fydd yn deillio o'r darpariaethau yn y Bil (yn benodol y pwerau i gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun ac i ymgymryd â rôl o ran ymdrin â chwynion).

Wrth baratoi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, nododd y Pwyllgor Cyllid y dystiolaeth a roddwyd yn ei gyfarfod ar 5 Hydref 2016 gan yr Ombwdsmon mewn perthynas â'i lwyth achosion. Dywedodd yr Ombwdsmon, ar yr adeg honno, y disgwylir i'r llwyth achosion gynyddu rhwng 10 a 12 y cant yn 2016-17 a rhwng 5 a 6 y cant ar gyfer 2017-18 ac o hynny ymlaen.

Er mwyn adlewyrchu'r arfer gorau a darparu dadansoddiad sensitifrwydd, roedd amcangyfrif o gost cynnydd o 5 y cant y flwyddyn yn y baich achosion hefyd wedi'i gynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Fel y nodwyd, darparwyd yr amcangyfrif ar gyfer 'osgoi costau' dim ond o ran y cynnydd blynyddol amcanestynedig o 12 y cant yn y llwyth achosion.

Yn Nhabl 2 mae amcangyfrif ar gyfer lliniaru'r cynnydd blynyddol amcanestynedig o 5 y cant a ddisgwylir yn sgil y darpariaethau yn y Bil. Yn Nhabl 3 dangosir y gost gysylltiedig ar gyfer y costau uned fesul achos a nodir yn Nhabl 1.

Tabl 2: Amcanestyniad o lwyth achosion yr Ombwdsmon o dan Ddeddf 2005 a'r Bil

	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23
Projected caseload - 2005 Act ^a	5,999	6,804	7,144	7,501	7,876	8,270	8,684	9,118
Projected Caseload - Bill ^b				7,433	7,701	7,575	7,514	7,453
Increase/(Decrease) in caseload (number of cases):				(68)	(175)	(695)	(1,170)	(1,665)
Decrease arising from the proposed power to undertake:								
Own initiative investigations				(23)	(58)	(232)	(390)	(555)
Complaints handling standards and procedures				(45)	(117)	(463)	(780)	(1,110)

Nodiadau:

- a Llwyth achosion gwirioneddol yr Ombwdsmon 2015–16 a 2016–17 a’r amcanestyniadau ar gyfer 2017–18 i 2022–23, sy’n tybio cynnydd blynyddol o 12 y cant yn y llwyth achosion.
- b Amcanestyniadau o’r llwyth achosion i ddangos effaith bosibl darpariaethau’r Bil.

Tabl 3: Osgoi costau sy’n codi o’r darpariaethau yn y Bil (£)

	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	Total	
Decrease in caseload:							
Own initiative investigations and Complaints Standards Authority (Number of cases)	(68)	(175)	(695)	(1,170)	(1,665)	(3,773)	
Estimated cost avoidance (£):							
Unit cost, RIA (2015-16, calculated) ^a	£ 501	34,068	87,675	348,195	586,170	834,165	1,890,273
Unit cost, RIA (2015-16, reported) ^b	£ 613	41,684	107,275	426,035	717,210	1,020,645	2,312,849
Unit cost (2016-17, calculated) ^c	£ 455	30,940	79,625	316,225	532,350	757,575	1,716,715
Unit cost (2016-17, reported) ^d	£ 526	35,768	92,050	365,570	615,420	875,790	1,984,598

Nodiadau:

- a Cost uned fesul achos sy’n deillio o wariant yr aeth yr Ombwdsmon iddo yn 2015–16 ar gyfer Nod 2 *Darparu gwasanaeth ymdrin â chwynion o ansawdd uchel, sy’n ystyried ac sy’n gwneud penderfyniadau ynghylch cwynion yn drylwyr ond yn gymesur, ac sy’n cyfleu penderfyniadau’n glir* [Gwariant (£3,008,000) wedi’i rannu â llwyth achosion (5,999). Ffynhonnell: [Cyfrifon Blynyddol yr Ombwdsmon 2015–16](#)]. Dyma’r costau uned fesul achos a ddefnyddiwyd ar gyfer yr amcangyfrifon o gostau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.
- b Cost uned fesul achos ar gyfer 2015–16 fel y nodwyd yn [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016–17](#) yr Ombwdsmon ac Amcangyfrif 2018–19.
- c Cost uned fesul achos sy’n deillio o wariant yr aeth yr Ombwdsmon iddo yn 2016–17 ar gyfer Nod 1, *Darparu gwasanaeth cwynion o’r safon uchaf, sy’n gymesur ac yn effeithiol* [Gwariant (£3,097,000), wedi’i rannu â llwyth achosion (6,804). Ffynhonnell: [Cyfrifon Blynyddol yr Ombwdsmon 2016–17](#)].
- d Cost uned fesul achos ar gyfer 2016–17 fel y nodwyd yn [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016–17](#) yr Ombwdsmon ac Amcangyfrif 2018–

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y disgwylir y bydd yr Ombwdsmon yn cynnal rhwng 10 a 15 o ymchwiliadau ar ei liwt ei hun bob blwyddyn. Wnaethoch chi siarad ag Ombwdsmon Gogledd Iwerddon i ddarganfod faint o achosion ar ei liwt ei hun y mae'n eu cynnal bob blwyddyn i ganfod a yw'r rhagdybiaeth hon, ac felly'r costau a nodir ar gyfer y rhan hon o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn debygol o fod yn gywir?

Yn y Memorandwm Esboniadol nodir i ba raddau yr ymgysylltwyd â rhanddeiliaid wrth gyfrifo costau a manteision y Bil. Roedd hyn yn cynnwys:

- adolygu gwaith ymchwil gan Wasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth (RaISe) Cynulliad Gogledd Iwerddon i oblygiadau cost Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon.
- ymgynghori ag ombwdsmyrn eraill, gan gynnwys trafodaeth mewn seminar arfer da a drefnwyd ar y cyd gan Gymdeithas yr Ombwdsmyrn, Sefydliad Rhyngwladol yr Ombwdsmyrn a Phrifysgol Aberystwyth.
- adolygu canlyniadau arolwg ar y we o Gynlluniau Ombwdsmyrn ledled Ewrop a hwyluswyd gan Swyddfa Ombwdsmon Iwerddon ar ran Sefydliad Rhyngwladol yr Ombwdsmyrn (IOI).

Dangosodd y canlyniadau fod nifer, math a graddfa ymchwiliadau'r Ombwdsmyrn ar eu liwt ei hunain yn amrywio.

Mewn tystiolaeth a roddwyd gan yr Ombwdsmon i'r Pwyllgor Cyllid yn y Pedwerydd Cynulliad dywedodd fod y pŵer i gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun yn bŵer a ddefnyddir yn anfynych i ymchwilio lle mae problem amlwg ond lle nad oes cwyn wedi dod i law, neu'n fwy cyffredin, i ymestyn ymchwiliad i gŵyn i gyrff eraill lle mae'n ymddangos bod y camweinyddu neu'r methiant gwasanaeth yn debygol o fod yn systemig ac yn effeithio ar bobl heblaw'r achwynydd. Cyfeiriodd yr Ombwdsmon hefyd at dystiolaeth papur a luniwyd gan Swyddfa Ombwdsmon Gogledd Iwerddon, *Power to Commence an Own Initiative Investigation*. Soniodd y papur hwn fod yr Ombwdsmon yng Ngweriniaeth Iwerddon wedi cynnal pum adolygiad ar ei liwt ei hun rhwng 2001 a 2010 ar faterion a oedd yn amrywio o

gymorthdaliadau ar gyfer gofal mewn cartref nyrsio, ad-dalu treth i weddwon, taliadau casglu sbwriel a'r hawl i bobl hŷn gael gofal mewn cartref nyrsio.

Fel y soniwyd, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod yr Ombwdsmon yn disgwyl cynnal rhwng 10 ac 15 o ymchwiliadau ar ei liwt ei hun bob blwyddyn. **Dim ond un neu ddau o'r rhain y disgwylir iddynt fod yn ymchwiliad, oherwydd pryderon, i sector cyfan, neu ran o sector, sy'n darparu gwasanaeth (cyfeirir at hyn yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol fel 'Senario D').** Disgwylir i'r gweddill gael eu cynnal mewn ymateb i gŵyn ddienw neu ymestyn ymchwiliad i gŵyn sy'n bodoli eisoes. Fel y nodwyd ym mharagraff 11.36 o'r Memorandwm Esboniadol, mae'r amcangyfrifon yn adlewyrchu nifer o ragdybiaethau sy'n seiliedig ar brofiad staff yr Ombwdsmon a dadansoddiad ei swyddfa o'r achosion. O'r herwydd, ystyrir mai amcangyfrifon gorau yw nifer yr ymchwiliadau ar ei liwt ei hun a'r gost gysylltiedig o'u cynnal.

Dylid nodi bod Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Gogledd Iwerddon) wedi'i dod i rym yn 2016, ond na fydd y pwerau i gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun yn cychwyn tan fis Ebrill 2018.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod yr arbedion a ragwelir yn sgil ymdrin yn well â chwynion yn seiliedig ar adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol ar ymdrin â chwynion yn Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU. Sut fydddech chi'n ymateb i'w safbwynt bod cryn ansicrwydd wrth ragdybio arbedion o'r fath, ac y dylid adlewyrchu hyn yn gryfach yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol?

Mae cryn ansicrwydd wrth ragdybio arbedion ac am y rheswm hwn nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn eu mesur.

Mae'r crynodeb o'r amcangyfrif o gostau a manteision ym Mhennod 9 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi fel a ganlyn: "mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi nodi ystod o fanteision posibl i aelodau'r cyhoedd a chyrrff cyhoeddus o fewn yr awdurdodaeth sy'n deillio o ddarpariaethau'r Bil. Mae'r manteision nas cyfrifwyd wedi'u nodi yn yr adran Opsiynau Polisi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol."

Mae paragraffau 11.21 i 11.58 o'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys gwybodaeth am y rhagdybiaethau a'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â chostau a manteision y Bil. Nodir nad yw'n bosibl darogan pa gyrff cyhoeddus y bydd y cynnydd mewn llwyth achosion yn y dyfodol yn berthnasol iddynt. Nid oes modd gwybod ychwaith beth gaiff y budd mwyaf yn sgil y gwelliannau o ran ymdrin â chwynion a dysgu cyflymach a haws o'r cwynion.

Mae paragraff 11.137 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi fod arbedion posibl o ymdrin â chwynion yn well ar gyfer cyrff sydd o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon. Mae'n cyfeirio hefyd, fel enghraifft, at yr arbedion posibl a allai ddeillio o ymdrin â chwynion yn well ar gyfer yr Adran Gwaith a Phensiynau fel y nodwyd gan Reolwr ac Archwilydd Cyffredinol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. **Fodd bynnag, nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys amcangyfrif o werth yr arbedion a allai ddeillio o'r ddarpariaeth arfaethedig hon yng Nghymru.**

A ydych yn cytuno â safbwynt yr Archwilydd Cyffredinol bod paragraffau 9 a 10 o Atodlen 1 i'r Bil yn codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ac am ba reswm y mae'r Memorandwm Esboniadol yn mynegi barn wahanol?

Mynegodd Archwilydd Cyffredinol Cymru y safbwynt hwn yn ei lythyr dyddiedig 6 Hydref 2017 yr ymatebais iddo ar 7 Tachwedd 2017. Mae fy llythyr yn nodi fod y Pwyllgor Cyllid yn fodlon ailedrych ar y mater hwn eto yn dilyn cyhoeddi adroddiad Cyfnod 1 gan y Pwyllgor.

A ydych yn bwriadu diwygio'r Memorandwm Esboniadol mewn modd sy'n caniatáu i Reol Sefydlog 26.6 (xi) gael ei bodloni, drwy gynnwys safbwyntiau'r Archwilydd Cyffredinol fod y darpariaethau ar gyfer taliadau uniongyrchol ym mharagraffau 9 a 10 o Atodlen 1 i'r Bil yn briodol a thrwy gynnwys y ddarpariaeth ychwanegol y mae'n ei hawgrymu?

Fel y nodwyd uchod, yn fy llythyr i'r Archwilydd Cyffredinol rwy'n nodi bod y Pwyllgor Cyllid yn fodlon ailedrych ar y mater hwn eto yn dilyn cyhoeddi adroddiad Cyfnod 1 gan y Pwyllgor.

Wrth amcangyfrif costau ychwanegol y Bil i gyrff cyhoeddus rydych chi wedi tybio y bydd cyflogau staff yn cynyddu 1 y cant bob blwyddyn i adlewyrchu'r costau byw. Pa mor realistig yr ydych chi'n ystyried yr amcangyfrifon hyn o

ystyried y posibilrwydd y gallai rhai sefydliadau sy'n cael eu cynnwys yn y Bil godi'r cap ar gyflogau'r sector cyhoeddus?

Credwn fod y dull gweithredu a gynigir yn rhesymol o ystyried y cyni parhaus yng nghyllid cyhoeddus y DU. Cafodd cyflog y sector cyhoeddus ei rewi am ddwy flynedd yn 2010 (ac eithrio'r rheini a oedd yn ennill llai na £21,000 y flwyddyn), ac ers 2013 mae'r cynnydd wedi'i gapio ar 1 y cant. Er bod y cap wedi'i godi ar gyfer rhai rhannau o sector cyhoeddus y DU (ar gyfer yr heddlu a swyddogion carchardai), credwn mai rhesymol fyddai tybio y bydd yn parhau yn ei le ar gyfer gweddill y sector cyhoeddus.

Rydych hefyd wedi amcangyfrif y bydd staff yr Ombwdsmon yn cael cynnydd blynyddol o 1 y cant yn eu cyflogau i adlewyrchu'r costau byw. Pa ystyriaeth yr ydych chi wedi'i rhoi i'r posibilrwydd y bydd ei staff yn cael mwy o gynnydd na hyn ar ryw adeg yn ystod y pum mlynedd ar ôl i'r Bil ddod i rym, a allai arwain at gostau i'r Ombwdsmon sy'n fwy na'r rhai a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol?

Fel y nodwyd uchod, credwn mai rhesymol fyddai tybio o hyd y bydd y cap ar gyflogau'r sector cyhoeddus yn parhau yn ei le ar gyfer y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus.

Er gwybodaeth, yn Nhabl 4 dangosir gwerth y cynnydd blynyddol o 1 y cant ar gyfer blynyddoedd 1 i 5, a adlewyrchir ar hyn o bryd yn yr amcangyfrifon o gostau uniongyrchol ac anuniongyrchol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, y gellir eu defnyddio ar gyfer dadansoddi sensitifrwydd.

Tabl 4: Cost y cynnydd blynyddol o un y cant mewn cyflog, Blynyddoedd 1–5 (£)

	Direct Costs	Indirect costs		Total	
		Low unit cost	High unit cost	Low unit cost	High unit cost
Accept oral complaints	3,534	1,632	2,209	5,166	5,743
Enable own initiative investigations	11,617	1,748	3,268	13,365	14,885
Extend jurisdiction to investigate the private health service element in a public/private health service pathway ^a	-	-	-	-	-
Complaints design, implementation oversight and data collection role ^b	11,617			11,617	11,617
Total	26,768	3,380	5,477	30,148	32,245

Nodiadau

a Fel y nodwyd ym mharagraff 11.107 o'r Memorandwm Esboniadol,

defnyddiwyd y costau uned fesul achos i amcangyfrif yr effaith ariannol ar yr Ombwdsmon o ymchwilio i'r elfen gwasanaeth iechyd preifat mewn llwybr gwasanaeth iechyd cyhoeddus/preifat. Ni amcangyfrifwyd effaith cynnydd yng nghostau cyflog staff ar y costau uned. Nid yw'r effaith ar ddarparwyr iechyd preifat (y 'gost anuniongyrchol') yn hysbys (paragraff 11.57 o'r Memorandwm Esboniadol).

- b Fel y nodwyd ym mharagraff 11.128 o'r Memorandwm Esboniadol, mae'n debygol y bydd yr effaith ariannol ar gyrff cyhoeddus o ran dylunio, gweithredu, a goruchwyllo cwynion ynghyd â chasglu data, yn gysylltiedig â chostau untro (neu gostau pontio) i newid systemau data a TG sy'n bodoli eisoes. Rydym wedi tybio y bydd costau o'r fath yn digwydd yn ystod y flwyddyn gyntaf ar ôl i'r Bil ddod yn ddeddf (paragraff 11.23 o'r Memorandwm Esboniadol) ac felly nid yw'r amcangyfrifon o'r costau yn cynnwys cynnydd ar gyfer 'costau byw'.

Mae Cydffederasiwn GIG Cymru yn mynegi pryder nad oes fframwaith ariannol cyson ar gyfer gosod cosbau ariannol ar sefydliadau yn sgil ymchwiliadau'r Ombwdsmon. A fydddech chi'n ystyried defnyddio'r Bil hwn i gyflwyno fframwaith ariannol cyson at y diben hwn?

Nid yw'r Ombwdsmon yn gosod cosbau ariannol. Felly nid yw fframwaith ariannol yn berthnasol ac nid yw'n ofynnol yn y Bil. Pan fydd yr Ombwdsmon yn canfod bod camweinyddu neu fethiant yn y gwasanaeth ar ran corff sydd wedi achosi anghyfiawnder i unigolyn, mae'n argymhell bod y corff yn cymryd camau i unioni'r anghyfiawnder hwnnw. Gall hyn gynnwys iawndal ond gwneir hyn fesul achos unigol.

Mae eich amcangyfrifon o'r costau ychwanegol yn y rhan o'r Bil sy'n caniatáu i'r Ombwdsmon ystyried achosion gydag elfen gofal iechyd preifat yn seiliedig ar ddim newid o 1 y cant o lwyth achosion yr Ombwdsmon a gynrychiolir gan hyn ar hyn o bryd. Pam nad ydych yn credu y bydd angen i'r Ombwdsmon ymchwilio i fwy na 7 achos y flwyddyn yn ymwneud â'r sector gofal iechyd preifat o ganlyniad i'r Bil, o ystyried y posibilrwydd y gallai mwy o ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth hon arwain efallai at gostau cysylltiedig ychwanegol?

Mae'r Bil yn diffinio'r amgylchiadau lle caiff yr Ombwdsmon ymchwilio i

wasanaethau iechyd preifat, gan gyfyngu hyn i achosion mewn llwybr iechyd cyhoeddus/preifat a lle "na ellir ymchwilio'n effeithiol nac yn gyflawn i faterion sy'n ymwneud â'r camau gweithredu perthnasol heb hefyd ymchwilio i faterion sy'n ymwneud â'r gwasanaethau iechyd preifat".

Mae'r amcangyfrif o nifer yr achosion yn adlewyrchu'r diffiniad cul hwn, yn ogystal â'r rhagdybiaethau sy'n seiliedig ar brofiad staff yr Ombwdsmon a dadansoddiad ei swyddog o'r achosion. Gwelir hyn fel yr amcangyfrif gorau.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi na fu'n bosibl amcangyfrif y costau ychwanegol i ddarparwyr gofal iechyd preifat o ganlyniad i'r Bil. Pa drafodaethau a gawsoch gyda darparwyr preifat neu eu cyrff cynrychiadol i geisio pennu lefel y costau y gallent fynd iddynt?

Fel y nodwyd ym mharagraff 11.57 o'r Memorandwm Esboniadol, dywed yr Ombwdsmon nad oes ganddo fynediad, na'r hawl i gael mynediad at y manylion am nifer y cwynion, a'r costau sy'n gysylltiedig â hwy, a wnaed am wasanaethau iechyd preifat. Mae Gwasanaeth Annibynnol Dyfarnu ar Gwynion y Sector Gofal Iechyd (ISCAS) yn dyfarnu'n annibynnol ar gwynion cleifion ynghylch aelodau ISCAS ond nid yw hyn yn cwmpasu'r holl ddarparwyr gofal iechyd preifat.

Nid yw'r wybodaeth arall sydd wedi'i chyhoeddi yn cwmpasu'r holl ddarparwyr gofal iechyd preifat, ac nid yw'n dangos ar wahân unrhyw gostau sy'n ymwneud â Chymru. O ystyried hyn, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi na fu'n bosibl amcangyfrif gwerth y costau uniongyrchol ac felly nad yw'r effaith ar ddarparwyr gwasanaeth iechyd preifat, o ran costau, yn hysbys. Fodd bynnag, mae nifer yr achosion yn isel iawn.

Ym mis Mawrth 2017, dywedodd cynrychiolydd o OB3 wrth y Pwyllgor Cyllid fod cyfyngiadau arwyddocaol o ran yr wybodaeth sydd ar gael i fwydo amcangyfrifon cadarn o gostau a manteision anuniongyrchol y Bil i sefydliadau eraill yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. I ba raddau y mae'r gwaith a wnaed ers hynny yn rhoi sicrwydd ichi fod y costau ychwanegol i'r cyrff hynny a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amcangyfrifon cadarn a chywir?

Bu'r Pwyllgor Cyllid yn trafod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol dechreuol yn ei

gyfarfod ar 9 Mawrth 2017. Cydnabu'r Aelodau'r heriau a'r cyfyngiadau o ran mesur costau'r pwerau newydd oherwydd nad oes digon o dystiolaeth a data ar gael. Nodwyd sylwadau'r Ombwdsmon y gellid ystyried bod yr ymchwil ychwanegol sydd ei hangen i gael rhagor o ddata yn anghymesur. Fodd bynnag, daeth yr Aelodau i'r casgliad, gan mai prif rôl y Pwyllgor Cyllid yw ystyried gwariant o Gronfa Gyfunol Cymru, roedd yn hanfodol bod unrhyw Fil a gyflwynir yn cynnwys costau a mesuriadau manwl. Felly, gofynnodd y Pwyllgor Cyllid am wybodaeth ychwanegol gan yr Ombwdsmon i ddiwallu ei safonau ei hun a hefyd y rhai sy'n ofynnol i gydymffurfio â Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Darparwyd yr wybodaeth hon, ynghyd ag ymatebion i geisiadau dilynol a wnaed gan y Pwyllgor Cyllid, gan yr Ombwdsmon. **Fel y nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol, bu staff yr Ombwdsmon ac OB3 yn ymwneud ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys rhai cyrff cyhoeddus yr effeithir arnynt gan y darpariaethau yn y Bil, wrth gasglu gwybodaeth ar gyfer paratoi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Defnyddiwyd y wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd i baratoi'r amcangyfrifon o gostau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.** Hefyd, adolygodd OB3 yr ymatebion i ymchwiliad ac ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid yn y Pedwerydd Cynulliad mewn perthynas ag ystyried pwerau'r Ombwdsmon. Ar y sail hon, rydym o'r farn mai dyma'r amcangyfrifon gorau o'r costau.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn nodi na all ymrwymo'i olynydd i ymgymryd ag archwiliad i ddefnydd yr Ombwdsmon o adnoddau fel rhan o'r adolygiad o'r Bil ar ôl ei weithredu. Ydych chi'n credu y bydd angen ichi ailedrych ar eich cynlluniau ar gyfer adolygiad ôl-weithredu yn sgil hyn?

Y bwriad oedd y byddai gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â'r Ombwdsmon – megis y farn archwilio ar yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ac unrhyw adroddiadau eraill a allai fod yn berthnasol – yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad ôl-weithredu. Nid oedd yn fwriad i geisiadau penodol am adolygiadau neu waith archwilio ychwanegol gael eu gwneud at y diben hwn. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn fodlon ystyried a oes angen unrhyw welliannau i'r Memorandwm Esboniadol i wneud hyn yn gliriach ar ôl i'r Pwyllgor gyhoeddi adroddiad Cyfnod 1.

A ydych o'r farn ei bod yn briodol fod y Pwyllgor Cyllid yn craffu ar waith yr Ombwdsmon o ran y costau yr eir iddynt wrth weithredu darpariaethau'r Bil fel rhan o'r adolygiad ôl-weithredu o ystyried rôl y Pwyllgor Cyllid yn cyflwyno'r Bil a goruchwylio ei hynt drwy'r Cynulliad? Oni fyddai'n well bod Pwyllgor arall yn y Cynulliad yn gwneud hyn?

Er mai'r Pwyllgor Cyllid gyflwynodd y Bil, nid yw hynny'n effeithio mewn unrhyw fodd ar ei allu i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol a nodir yn Rheolau Sefydlog 18.10, 18.11, 19 a 20 Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi awgrymu y byddai o gymorth pe bai'r terfyn amser o bedwar mis ar gyfer gosod cyfrifon blynyddol yr Ombwdsmon ar ôl iddynt gael eu cyflwyno iddo yn cael ei ddileu. A fyddech chi'n fodlon diwygio adran 17 (2) (b) o Atodlen 1 i'r Bil i ddileu'r gofyniad hwn?

Mae Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar yr oedi o ran cyflwyno Cyfrifon Blynyddol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2015-16 gan Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi nodi materion mewn perthynas â'r ddarpariaeth pedwar mis ar gyfer cyflwyno adroddiadau, sef yr hyn y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyfeirio ato yn ei dystiolaeth ysgrifenedig.

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn fodlon ailedrych ar y mater hwn eto pan fydd y Pwyllgor wedi cyhoeddi adroddiad Cyfnod 1.

Atodiad A – Costau uned yr Ombwdsmon fesul achos

Yn yr Atodiad hwn, rydym yn cynnwys y tablau sydd ar gael yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer ffigurau'r costau uned fesul achos fel y nodir ym mhrif gorff y papur hwn.

Tabl 7: Cost yr amcanestyniad o'r cynnydd yn llwyth achosion yr Ombwdsmon (£)

COSTAU UNED FESUL CWYN, £613

Unit cost per complaint (£)	613					
	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	Total
2005 Act:						
Increase in caseload of 5 per cent per annum						
Projected caseload (Number of cases) ^d	7,501	7,876	8,270	8,684	9,118	41,449
Increase year-on-year (Number of cases)	357	375	394	414	434	1,974
Estimated additional cost year-on-year (£) ^e	218,841	229,875	241,522	253,782	266,042	1,210,062
Estimated additional cumulative cost from 2018-19 (£)	218,841	448,716	690,238	944,020	1,210,062	3,511,877
Increase in caseload of 12 per cent per annum						
Projected caseload (Number of cases) ^f	8,535	9,559	10,706	11,991	13,430	54,221
Increase year-on-year (Number of cases)	915	1,024	1,147	1,285	1,439	5,810
Estimated additional cost year-on-year (£) ^e	560,895	627,712	703,111	787,705	882,107	3,561,530
Estimated additional cumulative cost from 2018-19 (£)	560,895	1,188,607	1,891,718	2,679,423	3,561,530	9,882,173

COSTAU UNED FESUL CWYN, £455

Unit cost per complaint (£)	455					
	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	Total
2005 Act:						
Increase in caseload of 5 per cent per annum						
Projected caseload (Number of cases)	7,501	7,876	8,270	8,684	9,118	41,449
Increase year-on-year (Number of cases)	357	375	394	414	434	1,974
Estimated additional cost year-on-year (£)	162,435	170,625	179,270	188,370	197,470	898,170
Estimated additional cumulative cost from 2018-19 (£)	162,435	333,060	512,330	700,700	898,170	2,606,695
Increase in caseload of 12 per cent per annum						
Projected caseload (Number of cases)	8,535	9,559	10,706	11,991	13,430	54,221
Increase year-on-year (Number of cases)	915	1,024	1,147	1,285	1,439	5,810
Estimated additional cost year-on-year (£)	416,325	465,920	521,885	584,675	654,745	2,643,550
Estimated additional cumulative cost from 2018-19 (£)	416,325	882,245	1,404,130	1,988,805	2,643,550	7,335,055

COSTAU UNED FESUL CWYN, £526

Unit cost per complaint (£)	526					
	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	Total
2005 Act:						
Increase in caseload of 5 per cent per annum						
Projected caseload (Number of cases) ^d	7,501	7,876	8,270	8,684	9,118	41,449
Increase year-on-year (Number of cases)	357	375	394	414	434	1,974
Estimated additional cost year-on-year (£) ^e	187,782	197,250	207,244	217,764	228,284	1,038,324
Estimated additional cumulative cost from 2018-19 (£)	187,782	385,032	592,276	810,040	1,038,324	3,013,454
Increase in caseload of 12 per cent per annum						
Projected caseload (Number of cases) ^f	8,535	9,559	10,706	11,991	13,430	54,221
Increase year-on-year (Number of cases)	915	1,024	1,147	1,285	1,439	5,810
Estimated additional cost year-on-year (£) ^e	481,290	538,624	603,322	675,910	756,914	3,056,060
Estimated additional cumulative cost from 2018-19 (£)	481,290	1,019,914	1,623,236	2,299,146	3,056,060	8,479,646

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon